Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Aberbargoed

**Heol Ysgol Newydd**
**Bargoed**
**CF81 9DD**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Aberbargoed

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Aberbargoed |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 252 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 190 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 41 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.3%) | 32.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 22.2%) | 14.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 05/01/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/06/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru.

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Aberbargoed yn ysgol hynod gynhwysol sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les ei disgyblion. Mae disgyblion yn gwybod bod pob un o'r oedolion yn yr ysgol yn poeni amdanynt ac y gallant droi atynt pan fyddant yn wynebu heriau neu'n cael anawsterau. O ganlyniad i hyn, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da â'u medrau academaidd a chymdeithasol. Mae'r ethos gwerthfawr a gofalgar y mae staff wedi gweithio mor galed i'w greu yn golygu y bu'r ysgol mewn sefyllfa gref i ddelio ag effaith y pandemig. Roedd partneriaethau effeithiol gyda rhieni ac ymroddiad staff yn golygu bod disgyblion a'u teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn, a cheir darpariaeth addas ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Ar y cyfan, mae disgyblion yn gwneud cynnydd pwrpasol o ran datblygu eu medrau mewn Saesneg a mathemateg, ond nid ydynt bob amser yn cymhwyso'r medrau hyn yn ddigon da yn eu gwaith testun. Mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn elwa ar ddarpariaeth effeithiol, a rhoddir cyfleoedd eithriadol o dda iddynt gydweithio, arbrofi a dysgu trwy brofiad. Mae disgyblion yn cyfrannu'n dda at amrywiaeth o grwpiau a phwyllgorau, a gallant roi enghreifftiau o sut mae eu gwaith wedi effeithio ar yr ysgol. Mae'r pennaeth yn cydnabod bod angen gwneud gwaith i nodi cyfleoedd addas ar gyfer gwella prosesau monitro a gwerthuso, a sut bydd staff a disgyblion yn elwa ar hyn. Mae angen egluro rolau a chyfrifoldebau staff er mwyn cefnogi gwelliant. Mae'n ymwybodol bod angen gwella safonau mewn addysgu o Flynyddoedd 3 i 6, a chodi disgwyliadau.

Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn rhoi cymorth da i'r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar. Mae ganddynt ystod eang o wybodaeth a phrofiad sy'n eu helpu i gyflawni eu rôl.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â safonau addysgu a disgwyliadau isel ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 3 i 6

A2 Creu cyfleoedd i ddatblygu medrau annibynnol disgyblion a herio disgyblion ymhellach ym Mlynyddoedd 3 i 6

A3 Sicrhau bod uwch arweinwyr yn monitro a gwerthuso dysgu ac addysgu yn drylwyr i nodi meysydd allweddol i'w gwella

A4 Datblygu rolau arweinwyr ar bob lefel i sicrhau gwelliant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif werthusiad

### Dysgu

At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol o'u mannau cychwyn unigol ym mhob maes dysgu. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn dechrau yn y dosbarth meithrin gyda medrau islaw'r rhai sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran. Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Er gwaethaf effaith y pandemig, mae disgyblion yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn datblygu eu medrau cyfathrebu'n dda. Maent yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn ymateb yn synhwyrol mewn gwersi. Er enghraifft, maent yn cymryd archebion yn siop pysgod a sglodion y dosbarth ac yn trafod yn hyderus sut i bobi cacen yn y gegin fwd. Mae medrau siarad a gwrando llawer o ddisgyblion hŷn yn datblygu'n dda. Maent yn mynegi eu syniadau'n glir a chywir, er enghraifft wrth rannu eu meddyliau ar newid hinsawdd.

Yn y dosbarth meithrin, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau edrych ar y lluniau mewn llyfrau, a siarad amdanynt. O'r dosbarth derbyn, mae disgyblion yn mwynhau gwrando ar storïau a'u hail-ddweud. Maent yn dechrau adnabod ac enwi amrywiaeth o seiniau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddechrau darllen testunau syml. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn darllen yn rhugl ac yn ail-ddweud storïau yn hyderus. Mae disgyblion yn defnyddio eu medrau ffoneg yn llwyddiannus wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd, ac wrth iddynt fynd yn hŷn, yn darllen yn gywir gyda dealltwriaeth dda. Maent yn mwynhau trafod eu hoff gymeriadau. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu casglu gwybodaeth o wahanol ffynonellau yn annibynnol i lunio adroddiadau diddorol, er enghraifft am fywyd yn yr Antarctig.

Mae cynnydd disgyblion mewn ysgrifennu yn dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau echddygol manwl yn dda ac yn dechrau defnyddio strategaethau i sillafu geiriau syml yn gywir. Yn raddol trwy'r ysgol, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o nodweddion amrywiaeth o arddulliau ysgrifennu wrth ddisgrifio teimladau neu fynegi barn. Maent yn atalnodi ac yn trefnu eu gwaith yn gywir, sy'n ei gwneud yn hawdd ei ddarllen. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu'n dda ond mae gorddefnyddio taflenni gwaith a gormod o gyfarwyddyd gan yr athro yn eu hatal rhag mynegi eu hunain yn annibynnol. Maent yn defnyddio geirfa ddiddorol ac aeddfed ond yn cael trafferth sillafu'r geiriau hyn yn gywir o bryd i'w gilydd. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn dda ym meysydd eraill y cwricwlwm.

Mae'r disgyblion o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 2 yn meddu ar fedrau rhif cryf a gafael dda o siâp a data. Maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn hyderus mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws meysydd dysgu eraill. At ei gilydd, mae gan lawer o ddisgyblion iau afael dda o wybodaeth a dealltwriaeth fathemategol. Yn uwch i fyny'r ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth am rif yn dda, ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o sut i gasglu a chyflwyno data. Er bod llawer o ddisgyblion hŷn yn meddu ar wybodaeth gadarn am gysyniadau mathemategol, ni ddefnyddir y medrau hyn yn addas o fanwl nac yn ddigon rheolaidd ym meysydd eraill y cwricwlwm.

Yn gyffredinol, mae datblygiad medrau Cymraeg disgyblion yn anghyson. Mae'r disgyblion iau yn datblygu ystod dda o eirfa ac yn dod yn ddysgwyr dwyieithog yn gyflym, gan ymateb yn naturiol i gwestiynau yn Gymraeg. Wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol ar ôl cyfnodau clo, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn defnyddio cyfarchion ac ymadroddion syml iawn yn briodol. Er nad yw eu medrau mor ddatblygedig ag y gellid ei ddisgwyl ar gyfer eu cam datblygu, mae Blwyddyn 6 yn dechrau defnyddio amser y gorffennol.

Pan fydd cyfleoedd yn codi, mae disgyblion yn awyddus i ddatblygu eu medrau creadigol, er enghraifft wrth astudio arlunwyr lleol. Mae gwersi addysg gorfforol rheolaidd, ynghyd â gweithdai sglefrfyrddio a dawns a gyflwynwyd yn ddiweddar, yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn briodol ar draws yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn yr ysgol yn meddu ar fedrau digidol sylfaenol. Er bod llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r platfform dysgu digidol yn yr ysgol i gadw ac adalw eu gwaith, mae hyn yn anghyson ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion iau yn anfon eu gwaith at eu hathrawon yn hyderus ac yn defnyddio teganau rhaglenadwy yn rhwydd. Nid yw cynnydd medrau digidol disgyblion yn datblygu ar yr un gyfradd, ac mae'r cyfleoedd i'w defnyddio mewn ystod o gyd-destunau yn gyfyngedig.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdawelu'n gyflym ac yn gweithio'n bwrpasol. Maent yn cydweithio'n dda ac yn dangos parch a gofal am syniadau pobl eraill wrth weithio mewn parau a grwpiau. Ar y cyfan, mae ymddygiad disgyblion yn briodol. Mae ffocws yr ysgol ar gefnogi iechyd a lles disgyblion yn golygu bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn nodi ac yn cyfleu eu teimladau yn glir i oedolion, ac maent yn hyderus y byddant yn eu cynorthwyo. Mae'r disgyblion hynny sydd angen cymorth ychwanegol i helpu rheoli eu hemosiynau yn elwa'n dda ar ystod bwrpasol y cymorth a gânt.

Wrth i ddisgyblion symud yn eu blaenau trwy'r grwpiau blwyddyn, dangosant agwedd gynyddol gadarnhaol at eu dysgu. Mae disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn dechrau dangos hyder a gwydnwch trwy weithgareddau datrys problemau, er enghraifft wrth arbrofi â gwahanol ddeunyddiau i greu lloches Anderson. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu harwain gan yr athro yn y rhan fwyaf o wersi, a rhoddir ychydig iawn o gyfleoedd iddynt weithio'n annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta byrbryd iach a sut i wneud dewisiadau iach. Mae disgyblion hŷn wedi creu bwrdd gwybodaeth am fwyta'n iach, ac wedi defnyddio hyn i annog disgyblion iau ar draws yr ysgol i fwyta'n iach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd i fyw yn iach, ac yn mwynhau amrywiaeth o offer amser egwyl i ddatblygu eu medrau corfforol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyd-chwarae, yn cymryd eu tro ac yn cynorthwyo'i gilydd yn dda wrth chwarae gemau a chymdeithasu. Maent yn deall pwysigrwydd aros yn ddiogel ar-lein. Trwy weithgareddau fel codi arian i gynorthwyo pobl yn Wcráin, mae disgyblion yn dechrau datblygu i fod yn ddinasyddion sy'n foesegol wybodus.

Mae disgyblion mewn rolau arwain yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gânt i ymgymryd â chyfrifoldebau, ac yn cyfrannu at wneud penderfyniadau ar draws yr ysgol. Maent yn

falch o'u hysgol a'r gwahaniaeth a wnânt iddo. Mae disgyblion yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt a'u bod yn dylanwadu ar waith a bywyd yr ysgol yn gadarnhaol. Er enghraifft, creodd y Criw Cymraeg arddangosfeydd yn Gymraeg, ac maent yn eu defnyddio i annog pob un o'r disgyblion i ddefnyddio'r iaith.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn trafod y testunau maent wedi ymdrin â nhw, ac yn teimlo bod staff yn gwrando ar eu syniadau ac yn defnyddio eu hawgrymiadau. Er enghraifft, wrth astudio'r Ail Ryfel Byd, gofynnon nhw p'un a allent astudio Wcráin fel gwlad, a chyflwynodd athrawon hyn yn eu cynllunio.

Pan fydd disgyblion yn gweld eu dysgu yn ddiddorol ac ysgogol, maent yn ymgymryd yn dda â thasgau ac yn gwneud cynnydd da â datblygu eu gwybodaeth a'u medrau. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn cyfrif yn gywir i 100 yn Gymraeg er mwyn darganfod faint o wyau draig a gafodd eu gadael yn eu hystafell ddosbarth.

Yn sgil pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

At ei gilydd, mae cwricwlwm yr ysgol yn eang ac yn cynnig ystod addas o gyfleoedd i ddisgyblion sy'n eu hannog i archwilio a dysgu. Mae pob testun yn dechrau trwy roi cyfle i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn y maent eisiau ei ddysgu, gyda chwestiynau fel, 'pam mae'r ddraig ar y faner?' Fel rhan o'u gwaith ar yr Ail Ryfel Byd, dewisodd disgyblion hŷn ddysgu am Wcráin ac effaith y rhyfel presennol ar y wlad a'i phobl. Yn ychwanegol, mae'r cwricwlwm yn cynnwys themâu fel 'Mae Pawb yn Cyfrif', sy'n canolbwyntio ar destunau fel Hanes Pobl Dduon ac amodau gwaith i blant yn Ghana. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth well o natur amrywiol Cymru a'r byd ehangach.

Mae darpariaeth i ddatblygu medrau siarad, gwrando a darllen disgyblion yn llwyddiannus ar draws yr ysgol, ar y cyfan. Ceir trefniadau addas i ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion, a nifer o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'r medrau hyn yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae darpariaeth i ddatblygu mathemateg disgyblion yn bwrpasol, ond nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn pynciau eraill ar y lefel y gallent. Mae ychydig iawn o aelodau staff yn modelu'r Gymraeg yn eithriadol o dda ac yn defnyddio Cymraeg achlysurol trwy gydol y dydd. Fodd bynnag, nid yw'r mentrau a gyflwynwyd yn ddiweddar yn cynorthwyo disgyblion i wneud digon o gynnydd o ran datblygu eu medrau Cymraeg.

Mae pob aelod o staff yn y dosbarthiadau iau yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion, gan greu amgylcheddau dysgu croesawgar, pwrpasol, a bywiog. Mae hyn yn cyfrannu at awyrgylch gweithio tawel lle mae'r disgyblion iau yn datblygu hyder ac yn ffynnu yn eu dysgu. Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu ac yn gweithio'n ddiwyd yn ystod gwersi. Caiff y disgyblion iau nifer o gyfleoedd i ddysgu trwy chwarae egnïol neu i gyfarwyddo eu dysgu eu hunain mewn ardal ddysgu helaeth dan do ac yn yr awyr agored. Mae staff yn cynllunio gweithgareddau sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu eu medrau'n dda. Er enghraifft,

tra'n cynnal ymchwiliad wedi'i seilio ar ymholi, ymwelodd fylcanolegydd â'r ysgol i rannu ei brofiadau. Mae athrawon yn defnyddio staff cymorth yn ystyriol i gynorthwyo datblygiad medrau a lles disgyblion.

At ei gilydd, pan fyddant yn cael eu holi, mae llawer o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3 i 6 yn mwynhau eu dysgu ac yn gweld y rhan fwyaf o wersi'n ddiddorol. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o athrawon yn ymdrechu i greu awyrgylch cynnes a chyfeillgar ar gyfer y disgyblion, nid yw'r drefn o ran cynllunio a chyflwyno gwersi bob amser yn cefnogi hyn. Nid yw gwersi'n symud ar gyflymdra addas ac mae her annigonol yn effeithio ar ymgysylltiad y rhan fwyaf o ddisgyblion. O ganlyniad i'r disgwyliadau isel hyn, aiff lleiafrif o ddisgyblion yn aflonyddgar, ac mae hyn yn effeithio ar y cynnydd a wna disgyblion yn ystod y wers. Ym Mlynyddoedd 3 i 6, mae athrawon yn rheoli gwersi'n agos, sy'n cael effaith negyddol ar allu disgyblion i weithio'n annibynnol.

Mae staff wedi dechrau addasu eu cynllunio i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae athrawon ac arweinwyr yn defnyddio amrywiaeth o brofion safonedig i olrhain cynnydd yn briodol. Mae hyn yn helpu llywio'r camau nesaf ar gyfer addysgu a dysgu. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dechrau cael eu defnyddio gan yr athrawon a'r disgyblion fel ei gilydd yn briodol. Ceir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd yr hunanfyfyrio hwn ar wella gwaith yr unigolion yn gyfyngedig.

Dros gyfnod, mae'r ysgol yn cynnig gweithgareddau niferus i ddatblygu medrau addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Trwy ymweliadau a chyflwyniadau gan arbenigwyr yn yr ysgol, mae gan ddisgyblion hŷn ddealltwriaeth glir o faterion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau ac effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad ar gyfer disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae'n adnabod ei disgyblion, eu cefndiroedd a'r gymuned leol yn dda, ac yn gweithio'n effeithiol i gefnogi lles emosiynol disgyblion. Mae'r ethos gofalgar ac anogol hwn yn annog disgyblion i ymgysylltu'n dda â'r ysgol. Er enghraifft, mae cymorth yr ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc yn hynod effeithiol. Mae gan yr ysgol aelod hyfforddedig o staff, ac mae wedi datblygu systemau sy'n galluogi nodi a chynorthwyo disgyblion sydd â chyfrifoldebau am ofalu am berthnasau gartref. Caiff y gwaith hwn effaith gadarnhaol ar ymdeimlad o les y disgyblion hyn.

Mae llawer o staff yn gweithio'n galed i hyrwyddo ymddygiad da, ac yn defnyddio atgyfnerthu yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw disgwyliadau o ymddygiad bob amser yn glir yn y dosbarthiadau hŷn, ac ni chaiff y system wobrau ei chymhwyso'n ddigon cyson i sicrhau hyn.

Mae ethos yr ysgol yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion archwilio eu credoau ysbrydol a darganfod am nodweddion crefyddau a diwylliannau eraill. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn astudio cantorion enwog o ddiwylliannau eraill, ac yn archwilio sut mae eu diwylliannau a'u credoau yn wahanol. Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddeall gwerthoedd pwysig fel

cyfiawnder, tegwch a gonestrwydd, er enghraifft yn ystod gwasanaeth ysgol gyfan am faciwîs.

Mae arweinwyr yn rhoi cyfleoedd effeithiol i grwpiau llais y disgybl rannu eu barn. Er enghraifft, yn ddiweddar, creodd Criw'r Llyfrgell arddangosfa ddarllen, ac maent yn ei defnyddio i annog disgyblion i garu darllen. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r gofynion statudol newydd ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, ac wrthi'n paratoi'n gadarnhaol ar gyfer y cyfnod pontio yn effeithiol. Maent yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i rieni gael eu cynnwys mewn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r disgyblion hyn.

Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb disgyblion yn agos. Mae'n gweithio'n dda gyda phartneriaid allanol fel y Swyddog Lles Addysg i ymgysylltu â disgyblion a'u teuluoedd i gefnogi cyfraddau presenoldeb da. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ailgyflwyno ymweliadau addysgol, sy'n cefnogi dealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant a'u treftadaeth yn llwyddiannus. Ceir diwylliant cryf o ddiogelu ar draws yr ysgol, ac mae wedi datblygu systemau da i sicrhau diogelwch y disgyblion. Mae ei threfniadau diogelu yn bodloni gofynion, ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol systemau priodol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ganddi brosesau digonol i nodi disgyblion sydd angen cymorth, cynllunio ymyriadau a gwerthuso effaith y gwaith hwn. Mae'r systemau cadw cofnodion electronig yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n fewnol a gydag asiantaethau allanol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, ac yn cael gwybodaeth berthnasol mewn ffordd amserol. Mae'n gweithredu ystod eang o raglenni ymyrraeth i fynd i'r afael â bylchau ym medrau llythrennedd, rhifedd a medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cynyddu ei darpariaeth i gefnogi iechyd meddwl a lles disgyblion. Er enghraifft, ers y pandemig, mae mwy o staff wedi hyfforddi i gynorthwyo disgyblion â'u lles emosiynol, ac yn darparu cyfleoedd i blant siarad â staff yn rheolaidd, pan fydd angen. Mae cynorthwywyr addysgu gwybodus a meddylgar yn cyflwyno ystod werthfawr o ymyriadau addysgol, emosiynol a chymdeithasol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion penodol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar wedi bod yn allweddol wrth greu a chynnal cymuned groesawgar a chynhwysol, gyda lles disgyblion yn ganolog iddi. Mae hi'n dechrau rheoli newid yn effeithiol wrth iddi lywio'r ysgol yn sensitif trwy addasiadau mewn arweinyddiaeth, ac ymateb i'r tarfu a achoswyd gan y pandemig. Ar y cyd â'r staff, mae'n gweithio'n galed i gynorthwyo disgyblion a gwneud iddynt deimlo'n ddiogel yn amgylchedd yr ysgol.

Ymhlith arweinwyr a staff, ceir ymwybyddiaeth ac ymrwymiad i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol mewn addysg. Mae arweinwyr yn dechrau annog staff i arloesi a threialu ymagweddau newydd at addysgu a dysgu wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr yn dechrau gwneud cynnydd tuag at ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion, er bod cynnydd wedi cael ei rwystro oherwydd y pandemig.

Mae arweinwyr yn gweithio'n addas i gasglu gwybodaeth ddefnyddiol ar draws yr ysgol i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, mae diffyg trylwyredd

mewn monitro darpariaeth yr ysgol. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr ddigon o wybodaeth gywir uniongyrchol i nodi meysydd pwysicaf yr ysgol i'w gwella yn llwyddiannus. Er enghraifft, nid yw arweinwyr wedi mynd i'r afael â'r anghysondebau yn ansawdd yr addysgu a'r effaith a gaiff hyn ar ddisgyblion. Hefyd, nid yw disgwyliadau ym mhob agwedd ar addysgu a dysgu bob amser yn ddigon uchel i helpu cynorthwyo athrawon a chynorthwywyr dysgu i gynnal a chodi safonau. Mae diffyg ffocws i werthusiadau, ac nid ydynt yn ddigon penodol i gefnogi cynnydd effeithiol tuag at dargedau. At ei gilydd, nid yw systemau'r ysgol ar gyfer monitro a gwerthuso ansawdd ei gwaith a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol.

Cynhelir cyfarfodydd staff addas i fynd i'r afael â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae pob aelod o'r staff addysgu yn gyfrifol am faes neu agwedd benodol ar waith yr ysgol. Yn ddiweddar, cyflwynwyd hyn wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, nid yw staff yn monitro nac yn gwerthuso eu maes cyfrifoldeb yn effeithiol, sy'n golygu bod eu cyfraniadau tuag at wella safonau a chynnydd disgyblion yn gyfyngedig. Nid yw'r tîm arweinyddiaeth newydd wedi egluro strwythur staffio cydlynol sy'n rhoi manylion am gyfrifoldebau perthnasol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw staff yn glir ynghylch rolau a chyfrifoldebau.

Mae cyfathrebu a pherthnasoedd â rhieni yn gryf, ac maent yn hoff iawn o'r ethos anogol a gofalgar sy'n cael ei hyrwyddo gan yr ysgol. Mae'r ysgol yn effeithiol wrth gasglu barn ystod eang o randdeiliaid. Er enghraifft, mae arweinwyr yn cynnal arolwg o farn disgyblion a rhieni yn effeithiol trwy ddefnyddio holiaduron. Mae cynorthwywyr addysgu yn aelodau allweddol o dîm yr ysgol ac yn cyfrannu'n effeithiol ac yn gyson at wella safonau dysgu, lles, a medrau cymdeithasol disgyblion. At ei gilydd, mae arweinwyr yn canolbwyntio ar gynorthwyo'r disgyblion a'u lles, trwy weithio'n llwyddiannus gyda disgyblion, rhieni a llywodraethwyr i hyrwyddo diwylliant effeithiol o ddiogelu gyda threfniadau cadarn ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllid yn dda ac mae'r grant datblygu disgyblion yn cael ei wario'n briodol. Er enghraifft, mae darparu gwersi dawns, sesiynau ffitrwydd a gweithdai sglefrfyrddio ar gyfer disgyblion yn cefnogi eu lles ac yn helpu mynd i'r afael â phroblemau emosiynol. Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn cynorthwyo'r ysgol i reoli a defnyddio ei hadnoddau yn bwrpasol. Maent yn hynod gefnogol i'r ysgol ac wedi ymrwymo i'w rôl. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau'n dda trwy ystod o rolau a phwyllgorau cyswllt, yn aml gan ddod ag arbenigedd defnyddiol i'r cyfrifoldebau hyn. Mae'r pennaeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae ganddynt ddealltwriaeth gyfyngedig o gynnydd disgyblion, a chwricwlwm datblygol yr ysgol, ac mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i ddwyn yr ysgol i gyfrif a chyflawni eu dyletswydd fel ffrind beirniadol.

Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd dysgu proffesiynol rheolaidd ar gyfer staff, sy'n cysylltu'n effeithiol â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Trwy weithgareddau dysgu proffesiynol amrywiol, mae pob aelod o staff yn dechrau datblygu dealltwriaeth o ofynion y Cwricwlwm i Gymru. Yn gyffredinol, mae trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad staff yn briodol, er nad yw targedau rheoli perfformiad yn cysylltu'n ddigon da â blaenoriaethau ysgol gyfan i sicrhau ymagwedd gydweithredol at wella'r ysgol ymhlith pob aelod o staff.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda ag ysgolion cynradd lleol eraill a'r ysgol uwchradd leol. Er enghraifft, yn ddiweddar, cwblhaodd yr holl ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 brosiect STEM llwyddiannus. Hefyd, mae staff y clwstwr yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu ymagwedd ar y cyd at addysgu agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru, a datblygu ymagwedd clwstwr at hyfforddi a mentora.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/08/2022